# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

**SC(3)-10-09 (p5): 3 Mehefin 2009**

### Deiseb: Mynediad ar hyd Dyfrffyrdd Mewndirol

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn gwahodd aelodau'r Pwyllgor Cynaliadwyedd i drafod yr argymhellion gan y Pwyllgor Deisebau ar y ddeiseb Mynediad ar hyd Dyfrffyrdd Mewndirol.

### Cefndir

2. Cytunodd Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 27 Ionawr i gynnal ymchwiliad byr i ddeiseb gan Gymdeithas Canwio Cymru, a oedd yn galw am ddeddfwriaeth i sefydlu hawl statudol i ganiatáu i'r cyhoedd gael mynediad ar hyd dyfroedd di-lanw yng Nghymru, rhywbeth tebyg i'r Ddeddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003.

3. Cyhoeddodd y Pwyllgor Deisebau ei adroddiad ym mis Mawrth 2009 ac argymell:

Byddai statud newydd yn sicrhau bod gan bawb fynediad i ddwr mewndirol yng Nghymru, a hynny ar sail gyfartal. Byddai hefyd yn darparu eglurder, sicrwydd a sefydlogrwydd a chredwn fod Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003 yn rhoi sylfaen ar gyfer datblygu model unigryw yng Nghymru. **Argymhellwn** y dylid cynnal ymchwiliad pellach ac ehangach gyda'r nod o

gyflwyno deddfwriaeth yn y maes hwn. Byddai hynny'n rhoi cyfle i'r holl randdeiliaid gyflwyno tystiolaeth.

Fodd bynnag, ni fydd rhoi mynediad statudol yn bosibl heb godau ymddygiad y gellir eu gorfodi ar gyfer dwr mewndirol, a hynny er mwyn cyflwyno amodau amgylcheddol ac amodau eraill a sicrhau bod synnwyr cyffredin yn cael ei ddefnyddio. **Argymhellwn** y dylai unrhyw ymchwiliad craffu llawn ystyried cyflwyno cod gorfodol er mwyn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth. Byddai hynny'n golygu bod modd rheoli a rheoleiddio hawl mynediad newydd i ddwr mewndirol yng Nghymru, a dylid ceisio datblygu system i allu adnabod defnyddwyr rheolaidd.

4. Ysgrifennodd Val Lloyd, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau at Gadeirydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd a Chadeirydd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant i holi a yw mynediad ar hyd dyfroedd mewndirol yn fater y byddai'r naill bwyllgor neu'r llall yn ei ystyried ar gyfer cynnal ymchwiliad craffu yn y dyfodol, gyda'r posibilrwydd o ddwyn ymlaen gymhwysedd deddfwriaethol yn hyn o beth gan nad yw'r rheolau sefydlog yn rhoi hawl i'r Pwyllgor Deisebau ddwyn ymlaen ddeddfwriaeth newydd.

5. Ysgrifennodd Janice Gregory, Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant at Mick Bates i roi gwybod iddo fod y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant wedi trafod y mater hwn a'i fod wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r mater fel ymchwiliad posibl yn y dyfodol.

### Argymhelliad

6. Noda'r Pwyllgor Cynaliadwyedd y Ddeiseb oddi wrth Gymdeithas Canwio Cymru, yr adroddiad gan y Pwyllgor Deisebau a'r ohebiaeth sy'n cyd-fynd â hwy, ac mae'n ystyried a hoffai gynnal ymchwiliad i fynediad ar hyd dyfroedd mewndirol.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Mehefin 2009**